Prosiect Cydgasglu Galw'r Sector Cyhoeddus am Fand Eang yng Nghymru

www.psba.org.uk

psba

Mynd i'r afael ag anghenion y sector cyhoeddus

galluogi cyflenwi gwasanaethau

Mae'r sector cyhoeddus dan bwysau cynyddol i gyflenwi gwasanaethau gwell gan gadw'r costau i lawr. Mae PSBA yn alluogydd allweddol er mwyn helpu i dderbyn yr heriau hyn.

Cydweithio

Mae sefydliadau yn cael eu hannog i gydweithio'n gynyddol i ddarparu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion.

Caiff gwasanaethau PSBA eu cyflenwi dros rwydwaith ffisegol cydranedig, gyda rhwydweithiau rhithwir preifat ar gyfer pob sefydliad neu wasanaeth. Mae'r dyluniad hwn yn ei gwneud yn haws ac yn ddiogelach i sefydliadau rannu gwybodaeth. Wrth wneud hynny, mae PSBA yn goresgyn rhwystr arall rhag cydweithio.

Gwasanaethau ar y cyd

Mae gwasanaethau ar y cyd yn ddull effeithiol i sefydliadau'r sector cyhoeddus leihau costau, trwy rannu adnoddau a safoni prosesau. Hefyd, mae gwasanaethau wedi'u safoni yn rhan bwysig o'r agenda cydweithio.

Mae PSBA yn wasanaeth ar y cyd ynddo'i hun, sydd wedi'i danategu gan strwythur llywodraethu aml-sector llwyddiannus.

Cynnal a gwella diogelwch

Wrth i sefydliadau fanteisio ar weithio mwy hyblyg o leoliadau niferus, gan ddefnyddio'r rhyngrwyd a rhwydweithiau preifat gyda'i gilydd, mae'r perygl o ymosodiadau ar ddiogelwch yn cynyddu.

Mae PSBA yn cyflenwi atebion diogelwch unigol i sefydliadau, gan roi hyder iddynt yn eu gallu i amddiffyn yn erbyn peryglon diogelwch. Mae gwasanaethau diogelwch PSBA yn cynnwys muriau gwarchod wedi'u rheoli, hidlo URL ar y we a'r gallu i drosglwyddo traffig ar lefel IL3 (CYFYNG).

Symleiddio isadeiledd y rhwydwaith llais a data

Mae sefydliadau sy'n rheoli rhwydweithiau llais a data ar wahân yn mynd i gostau ychwanegol yn allanol ac wrth eu rheoli.

Mae argaeledd lled band uwch a ddarperir gan PSBA, ynghyd â rheoli traffig Ansawdd Gwasanaeth, yn golygu bod Llais dros y Rhyngrwyd wedi dod yn realiti i lawer o sefydliadau.

Mae Ansawdd Gwasanaeth (QoS) yn hanfodol i ddyluniad PSBA a gall flaenoriaethu traffig llais ac amlgyfrwng dros draffig data, lle mae'n briodol i wneud hynny.

Lled band a hydwythedd

Wrth i fwy o bobl yn y sector cyhoeddus ddefnyddio ystod ehangach o gymwysiadau TG, mae pwysau cynyddol i ddarparu cysylltiad â'r rhwydwaith trwy'r dydd a'r nos. Mae'r disgwyliad hwn, ynghyd â'r ffaith bod cymwysiadau'n dod yn gyfrwng-gyfoethog, yn gwthio'r angen am fwy o led band ar y rhwydwaith, a gwasanaethau hydwyth sydd ag argaeledd uchel.

Mae PSBA yn darparu gwasanaeth rhwydwaith yn unol â gofynion penodol y defnyddiwr. Mae'r rhain yn amrywio o gyfres o wasanaethau band eang rhad i safleoedd llai nad oes ganddynt ofynion rhwydwaith sy'n hanfodol i fusnes, i wasanaethau hydwyth iawn i'r rheiny sydd â gofynion trwy'r dydd â'r nos.

Gweithio hyblyg

Yn gynyddol, mae staff yn mabwysiadu arferion gweithio mwy hyblyg – gweithio gartref, o swyddfeydd eraill a gweithio wrth symud. Mae hyn yn mynnu mynediad diogel o bell at wybodaeth a chymwysiadau hanfodol.

Mae staff yn gallu gweithio'n ddiogel ac yn effeithiol o leoliadau pell. Mae hyn yn lleihau amser a chostau teithio ac yn cynyddu cynhyrchedd.

40409

LOGICALIS
Cyflenwr y Rhwydwaith PSBA
The PSBA Network Supplier

Gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru
Working in partnership with Welsh Assembly Government